OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Bwrdeistref Sirol a Dinas Casnewydd) 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio ac yn ardal gorfodi arbennig at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Mae'r Gorchymyn hwn yn galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol a Dinas Casnewydd i orfodi'r gyfraith ar dramgwyddau parcio o fewn yr ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn drwy gyfundrefn cyfraith sifil, yn hytrach na gorfodi'r gyfraith gan yr heddlu neu wardeiniaid traffig yng nghyd-destun y gyfraith droseddol.

Gellir cael Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a Memorandwm Esboniadol oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Seilwaith Economaidd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar http://senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=14828.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Bwrdeistref Sirol a Dinas Casnewydd) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | 5 Mehefin 2019 |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | 6 Mehefin 2019 |
| *Yn dod i rym* | 1 Gorffennaf 2019 |

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru(**1**) drwy arfer y pwerau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraff 8(1) o Atodlen 8 a pharagraff 3(1) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**2**).

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol a Dinas Casnewydd wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru i Orchymyn gael ei wneud o dan y pwerau hyn mewn cysylltiad â rhan o ardal y Cyngor hwnnw.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phrif swyddog Heddlu Gwent yn unol â gofynion paragraff 8(3) o Atodlen 8 a pharagraff 3(4) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Bwrdeistref

(**1**) Yn rhinwedd adran 92 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004, dynodwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awdurdod cenedlaethol priodol o ran Cymru, at ddibenion Rhan 6 o'r Ddeddf honno. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) 2004 p. 18.

Sirol a Dinas Casnewydd) 2019 a daw i rym ar 1 Gorffennaf 2019.

**Dynodi ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio ac ardal gorfodi arbennig**

**2.** Mae Gweinidogion Cymru yn dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn—

(a) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio; a

(b) ardal gorfodi arbennig.

*Ken Skates*

Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

5 Mehefin 2019

# YR ATODLEN

Erthygl 2

**Yr ardal a ddynodir yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio ac yn ardal gorfodi arbennig**

Ardal Bwrdeistref Sirol a Dinas Casnewydd ("y Fwrdeistref Sirol a'r Ddinas") ac eithrio—

(a) y darn o Drafford yr M4 o fewn y Fwrdeistref Sirol a'r Ddinas, o'r ffin â Dinas a Sir Caerdydd hyd at y ffin â Sir Fynwy, gan gynnwys ei ffyrdd ymuno ac ymadael;

(b) y darn o Drafford yr A48 o fewn y Fwrdeistref Sirol a'r Ddinas, o'r ffin â Dinas a Sir Caerdydd hyd at y gyffordd â Thraffordd yr M4;

(c) y darn o Gefnffordd yr A449 o fewn y Fwrdeistref Sirol a'r Ddinas, o'r gyffordd â Thraffordd yr M4 hyd at y ffin â Sir Fynwy; a

(d) y darn o Gefnffordd yr A4042 o fewn y Fwrdeistref Sirol a'r Ddinas, o'r gyffordd â Thraffordd yr M4 hyd at y ffin â Bwrdeistref Sirol Torfaen.